<u>Proses Monitro Cyfranogiad ar gyfer Cyrsiau Addysg Barhaus Oedolion</u>

Mae'r Brifysgol yn sylweddoli bod presenoldeb a chyfranogiad mewn dysgu ac addysgu yn elfennau allweddol wrth sicrhau llwyddiant wrth gadw myfyrwyr, a chynnydd, a chyflawniad llwyddiannus myfyrwyr. Gall monitro cyfranogiad ein helpu i adnabod myfyrwyr a allai fod yn wynebu anawsterau ac y gallai fod angen cymorth penodol arnynt.

Bydd y broses monitro cyfranogiad yn berthnasol hefyd i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Addysg Barhaus i Oedolion er mwyn sicrhau lles myfyrwyr.

Bydd y Brifysgol yn adolygu'r setiau data canlynol:

- Mewngofnodi i Canvas
- Mynediad at dudalennau modiwlau yn Canvas
- Mynediad at Zoom drwy dudalennau modiwlau yn Canvas
- Mynediad at Panopto drwy dudalennau modiwlau yn Canvas

Caiff y setiau data eu hadolygu bob pythefnos i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i gyfranogi yn eu rhaglenni astudio. Os nad oes unrhyw gyswllt wedi'i gofnodi dros y cyfnodau pythefnos ar gyfer myfyrwyr, bydd tîm Cymorth Myfyrwyr y Gyfadran yn cysylltu â nhw i gynnig cymorth a chyngor.

Mae'r broses yn cael ei hesbonio isod gydag enghreifftiau:

<u>Cam 1</u> - 14 diwrnod heb gyswllt. Byddwn yn cysylltu â'r myfyriwr i gynnig cymorth, yn ei gyfeirio at wasanaethau cymorth ac yn ei wahodd i gysylltu â'i Gyfadran/Ysgol os yw am drafod ei lefelau cyfranogiad neu os oes angen cymorth wrth ymrwymo i'w astudiaethau.

<u>Cam 2</u> - 28 o ddiwrnodau heb gyswllt. Bydd y Gyfadran/Ysgol yn cysylltu eto â'r myfyriwr a bydd angen iddo fynd i gyfarfod naill ai wyneb yn wyneb neu rithwir i drafod ei ddiffyg cyfranogiad a darparu unrhyw dystiolaeth sy'n berthnasol i'w lefelau cyfranogiad. Sicrhau lles myfyrwyr yw ein blaenoriaeth ac os bydd y myfyriwr yn cymryd rhan yn y cyfarfod ac os gall gynnig rhesymau boddhaol dros ei ddiffyg cyfranogiad, bydd yn cael parhau â'i astudiaethau.

Os nad yw myfyrwyr yn fodlon ymrwymo i'r broses hon gyda'u Cyfadran gall y Gyfadran/Ysgol ystyried eu tynnu'n ôl dan amgylchiadau eithriadol.Gwneir pob ymdrech i ystyried yr holl amgylchiadau esgusodol yn llawn wrth benderfynu a ddylid tynnu myfyriwr yn ôl o'r Brifysgol.

Gall myfyrwyr sy'n derbyn hysbysiad o dynnu'n ôl gan y Brifysgol, yn unol â Pholisi Monitro Cyfranogiad y Brifysgol, wneud cais i'r penderfyniad hwn gael ei adolygu. Gweler adran 13 o'r prif bolisi am ragor o wybodaeth.